Adroddiad Blynyddol 2018/2019

Y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus





Fersiwn hawdd i ddeall



Dyma Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus


Mae ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Gwneir adroddiad fel hyn bob blwyddyn



Eleni mae'n ymwneud ag **Iechyd a Llesiant**



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu gwneud newidiadau.



Bydd y newidiadau hyn yn gweithio tuag at atal salwch ac yn cefnogi pobl i fyw bywydau iach.



Bydd atal salwch yn golygu bod llai o bwysau ar wasanaethau gofal iechyd.



Bydd y gwasanaeth iechyd yn dal i roi triniaeth i gleifion ond bydd hefyd yn siarad â phobl am eu bywydau a'u hiechyd.



Mae'r pethau i siarad â chleifion amdanyn nhw yn cynnwys:



- Gwaith da



- Arian



- Tai



- Bwyd da



- Ffrindiau a theulu



- Lle rydych chi'n byw



Os yw'r holl bethau hyn yn iawn, mae pobl yn gyffredinol yn hapusach ac yn iachach.



Mae hyn yn golygu efallai na fydd angen triniaeth iechyd ar bobl mor aml.



Bydd y Bwrdd Iechyd yn cydweithio ag awdurdodau lleol ac eraill i sicrhau bod y pethau hyn yn digwydd i bawb.



Mae'r math hwn o gymorth yn digwydd yn barod ond gellir gwneud mwy.



Rydyn ni wedi gwneud 3 offeryn i'n helpu ni:



Y Lens Llesiant



Y Compendiwm




a'r Lens Tîm



Mae'r Lens Llesiant yn set o gwestiynau a fydd yn helpu pobl i gael gwahanol sgyrsiau am iechyd a llesiant.



Mae'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar sut i:



- Atal problemau




- Edrych ar ba asedau (pethau o werth) sydd gan y cleifion



- Annog ei gilydd i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ateb hirdymor



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gefnogi pobl sydd am newid y system.



Yn ystod y tair blynedd nesaf, y cynllun yw:



- Cyfathrebu â'r cyhoedd, staff a phartneriaid hyd yn oed yn fwy



- A defnyddio'r dulliau newydd i newid sut rydy ni'n siarad am iechyd gyda phobl.



Ni fydd hyn yn hawdd, ond mae'n bwysig gwneud y newidiadau hyn i wella iechyd a llesiant.

Gwnaed y Crynodeb Hawdd ei Darllen hwn gan Planet Easy Read

Rydyn ni'n defnyddio Photosymbols